Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mark Dacey
Pennaeth
Grŵp NPTC
Dŵr y Felin Road
Castell Nedd
Castell-nedd Port Talbot
SA10 7RF

Awst 2014

Annwyl Mr Dacey

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Grŵp Castell-nedd Port Talbot**

Yn dilyn ymweliad yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad â'ch sefydliad ar 2 Gorffennaf 2014, mae'r llythyr hwn yn ffurfio adroddiad blynyddol ar sail canlyniadau'r ymweliad hwnnw. Caiff y llythyr ei gyhoeddi ar wefan Estyn.

Ffurfiwyd Grŵp Castell-nedd Port Talbot ym mis Awst 2013 drwy uno hen Goleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys.

Ymwelodd Liam Kealy AEM â'r coleg am ddiwrnod a chyfarfu ag uwch reolwyr a rheolwr ansawdd y coleg. Arfarnodd perfformiad presennol y sefydliad a deilliannau arolwg Llais y Dysgwyr, ac fe adolygodd y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn deillio o'r arolygiad o Goleg Castell-nedd Port Talbot ym mis Tachwedd 2012.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygydd cyswllt**

**1 Deilliannau a safonau**

Roedd gan y grŵp y gyfradd lwyddo uchaf heb ei phwysoli yn y sector yn 2012-2013, sef 89%, a oedd yn welliant o saith pwynt canran o gymharu â 2011-2012. Cyfradd lwyddo'r grŵp wedi ei phwysoli roedd 79%. Roedd hyn un pwynt canran yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol ac yn agos at frig y sector. Gwellodd y grŵp gyfraddau llwyddo mewn 12 maes pwnc sector rhwng 2011-2012 a 2012-2013.

Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo ar gyrsiau hir Lefel 3 yn is nag ar lefelau eraill, ac mae nifer o feysydd pwnc sector â nifer fach o ddysgwyr yn cyflawni cyfraddau llwyddo sydd islaw 80%.

Daw bron i hanner y dysgwyr o ardaloedd economaidd-ddifreintiedig.  Gwna’r grŵp ddefnydd da o ddata am y dysgwyr hyn yn ei broses hunanasesu i nodi pa mor dda y maent yn cyflawni o gymharu â dysgwyr eraill.  Mae’r rhai sy’n cael Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (EMA) yn cynnwys 43% o ddysgwyr ar gampysau Castell Nedd. Yn gyffredinol, mae’r dysgwyr hyn wedi cyflawni ar gyfradd uwch na’r rhai nad ydynt yn cael y lwfans dros y ddwy flynedd diwethaf.  Byddai hyn yn awgrymu bod y coleg yn darparu cymorth effeithiol i’r dysgwyr hyn.  Ar gampysau Powys, mae 40% o ddysgwyr yn cael EMA, ond nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol yn nhueddiadau llwyddiant eu perfformiad.

Mae cyrsiau hir yn cynnwys 95% o ddarpariaeth y grŵp.  Y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer cyrsiau hir yw 87%, sef yr uchaf yn y sector ar gyfer 2012-2013. Mae saith maes pwnc sector ymhlith y perfformwyr gorau yn y sector.  Fodd bynnag, mae pum maes yn hanner isaf y sector.  Mae cyrhaeddiad dysgwyr mewn 12 maes pwnc sector yn 90% neu’n uwch.  Hefyd, mae cyfraddau cwblhau 90% neu’n uwch mewn 15 maes pwnc sector.  Mae’r cyrsiau hir sy’n perfformio orau yn y meysydd dysgu canlynol: adeiladu; hamdden, teithio a thwristiaeth; ac ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant.

Mae cyrsiau byr yn cyfrif am 5% o’r ddarpariaeth.  Roedd gan y coleg un o’r cyfraddau llwyddo uchaf yn y sector ar gyfer y rhain, sef 99%, a oedd yn gynnydd o chwe phwynt canran o gymharu â 2011-2012.  Fodd bynnag, gostyngodd nifer y cyrsiau byr fel canran o gyfanswm y ddarpariaeth 3.5 pwynt canran er 2011-2012.

Mae gan y coleg rai o’r cyfraddau llwyddo uchaf ar gyfer medrau allweddol ar bob lefel, ac ar draws pob agwedd ar fedrau allweddol.

Mae gan y grŵp brosesau effeithiol ar waith ar gyfer arfarnu ei berfformiad ar draws pob maes pwnc sector.  Mae staff cyrsiau a phenaethiaid ysgolion yn dadansoddi perfformiad ar lefel cyrsiau yn dda i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella.  Mae penaethiaid ysgolion yn cytuno ar gynlluniau gweithredu â staff cyrsiau ar gyfer cyrsiau sy’n tanberfformio.  Timau cyrsiau a phynciau sy’n gyfrifol am wella perfformiad.

Mae uwch reolwyr yn darparu adroddiadau dadansoddol defnyddiol i bwyllgor dysgu a pherfformiad y grŵp a’r corff llywodraethol.  Mae hyn yn galluogi’r cyrff hyn i ddeall sut mae’r grŵp yn perfformio o gymharu â cholegau eraill yn y sector, nodi arfer dda a chytuno ar gynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd sy’n tanberfformio.

## 2 Addysgu ac asesu

Mae’r grŵp yn mynd i’r afael yn briodol â’r argymhelliad o’r arolygiad o Goleg Castell-nedd Port Talbot yn 2012 i wella safonau addysgu ac asesu ym mhob maes dysgu.  Mae wedi cyflwyno proses newydd o arsylwadau dosbarth sy’n nodi pa mor dda y mae athrawon yn cyflawni yn erbyn cyfres o feini prawf yn cwmpasu ystod o nodweddion fel cynllunio, gweithgareddau addysgu ac asesu, a pha mor dda y mae dysgwyr yn ymgysylltu â’r wers.  Mae’r grŵp yn cynnal arsylwadau o’r holl staff addysgu yn flynyddol.  Mae hefyd wedi hyfforddi staff i arsylwi gwersi er mwyn safoni arfer.

O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, dywed uwch reolwyr bod ganddynt ddarlun cywir o ansawdd addysgu ac asesu a dealltwriaeth fanwl o gryfderau eu staff addysgu a'r meysydd i'w gwella. Mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad athrawon unigol a chynllunio gweithgareddau datblygu staff perthnasol. Hefyd, mae penaethiaid ysgolion ac arweinwyr cyrsiau yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio adolygiadau o gyrsiau a'r cwricwlwm a chynlluniau gwella ansawdd.

## 3 Crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad o fis Tachwedd 2012

Mae'r grŵp wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad o Goleg Castell-nedd Port Talbot yn 2012. Mae'n cydnabod bod ganddo waith i'w wneud o hyd i fodloni'r argymhelliad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o Gymru.

Hefyd, mae'r grŵp wedi mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad o Goleg Powys yn 2009 i wella ansawdd addysgu a gwella adolygiadau o feysydd dysgu. Ymgorfforwyd yr argymhellion i ddiwygio a diweddaru polisïau'r coleg a monitro camau gweithredu cytûn yn systematig yng ngwaith y grŵp newydd. Mae'r argymhellion i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr a'r lefel y mae dysgwyr yn ymgymryd â chyrsiau medrau allweddol arni, a gwaith i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, wedi eu hymgorffori yng nghynllun datblygu ansawdd cyfredol y grŵp hefyd.

## 4 Llais y dysgwr

Cynhaliodd AdAS arolwg llais y dysgwr 2014 ar wahân ar gampysau Castell-nedd Port Talbot a Phowys. Cwblhaodd ychydig yn llai na 2,700 o ddysgwyr yr arolwg ar draws pob campws.

Roedd canlyniadau'r grŵp yn cyfateb i gyfartaleddau'r sector neu'n is ar gyfer boddhad a disgwyliadau cyffredinol o'r cwrs. Yr yr un modd, roedd sgôr y grŵp yn cyfateb i gyfartaledd y sector neu'n is ar draws pob un o'r pum thema allweddol ac mewn llawer o feysydd pwnc sector. Roedd dysgwyr hŷn yn fwy bodlon na'u cymheiriaid yn y sector ac, ar gampysau Powys, roedd dysgwyr benywaidd rhan-amser yn fwy bodlon na dysgwyr eraill a'u cymheiriaid yn y sector.

Roedd dysgwyr o'r farn bod ychydig o feysydd dysgu uwchlaw meincnod y sector ar gyfer boddhad cyffredinol. Roedd y rhain fel a ganlyn: hamdden, teithio a thwristiaeth; a hanes, athroniaeth a diwinyddiaeth ar gampysau Castell Nedd, a busnes, gweinyddu a'r gyfraith, a oedd ymhell uwchlaw'r sector ar gampysau Powys.

Roedd dysgwyr ar draws y grŵp o'r farn bod addysgu a hyfforddiant ymhell islaw cyfartaledd y sector. Roeddent o'r farn bod amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid uwchlaw cyfartaledd y grŵp, ond roedd addysgu a dysgu mewn peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi islaw cyfartaledd y grŵp.

Mae'r grŵp wedi ymateb yn gadarnhaol i ganlyniadau llais y dysgwr ac wedi cynnwys camau gweithredu ar gyfer gwella yn ei gynllun datblygu ansawdd. Yn ddiweddar,

mae’r corff llywodraethol wedi ystyried adroddiad cynnwys dysgwyr ac wedi cytuno ar gamau gweithredu allweddol ar gyfer 2014-2015. Bydd y rhain yn cynnwys cynhyrchu strategaeth newydd ar gynnwys dysgwyr ar gyfer y grŵp, pennu mesurau effaith a chynnwys dysgwyr mwy yn y gwaith o redeg o grŵp o ddydd i ddydd. Hefyd, mae’r grŵp yn cynnwys camau gweithredu i wella ymgysylltiad dysgwyr â’i gynllun gwella ansawdd.

Mae gan y grŵp amrywiaeth o weithgareddau eraill ar waith i ymgysylltu â dysgwyr er mwyn eu cynnwys mewn gwella eu profiad dysgu. Mae’r grŵp yn defnyddio system o gynrychiolwyr dosbarth a chyrsiau i holi barn dysgwyr. Mae dau gynrychiolydd dysgwyr o bob ysgol yn cyfrannu at gyfarfodydd y campws a’r grŵp i fynegi barn a safbwyntiau dysgwyr i benaethiaid ysgolion ac uwch reolwyr. Ar hyn o bryd, mae’r grŵp yn gweithredu Senedd Myfyrwyr ar ei gampysau yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae ganddo Gymdeithas Myfyrwyr ar ei gampysau ym Mhowys hefyd. Mae’r grŵp yn cydweithio ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru i hyfforddi cynrychiolwyr ysgolion a dysgwyr-lywodraethwyr i’w cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

## 5 Argymhellion

Oherwydd amseriad yr ymweliad, roedd yr arolygydd yn gallu ymgymryd ag ystod gyfyngedig o weithgareddau yn unig. Mae Estyn yn bwriadu cynnal rhagor o weithgareddau i arfarnu gwaith y grŵp cyn diwedd blwyddyn ariannol 2014-2015.

Yn y cyfamser, dylai’r grŵp barhau i weithio i wneud y canlynol:

A1 gwella boddhad a disgwyliadau dysgwyr
A2 mynd i’r afael ag anghysondebau mewn cyfraddau llwyddo rhwng meysydd pwnc sector
A3 parhau i fodloni’r argymhellion yn ymwneud â hyrwyddo’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

## Camau nesaf

Bydd eich arolygwyr cyswllt, Steve Bell AEM a Gill Sims AEM, yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol drwy eu rôl gyswllt â’r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol